# Eich cyfrifoldeb dros Gymru Wydn

## Beth gallwch wneud

Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales
Buddsoddi yn Natur Cymru
Invest in Nature Cymru
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod 7 nod i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Mae un o'r rhain yn cyfeirio at Gymru Wydn, sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd naturiol a'r heriau sy'n ein hwynebu a bydd y y daflen ffeithiau hon yn esbonio mwy am y nod hon a pham ei bod yn berthnasol i'ch sefydliad chi. Bydd hefyd yn nodi camau ymarferol, syml a chost effeithiol y gallwch eu cymryd i gyfrannu at Gymru wydn tra hefyd yn arbed amser, gwella morâl staff a gwirfoddolwyr, a chyfrannu at gymunedau iachach a mwy bywiog.**

## Pam mae angen Cymru wydn arnom ni?

**Mae astudiaethau'n dangos bod natur yn chwarae rhan fawr yn y gwaith o warchod ein hiechyd a'n llesiant cymdeithasol ac economaidd. Oeddech chi'n gwybod...?**

Darn o ddeddfwriaeth arloesol yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac mae'n gofyn wrth gyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd tuag at 7 nod i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff bennu amcanion llesiant sydd i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Am ragor am y Ddeddf, ewch i wcva.org.uk/WFGA

- Mae treulio amser ym myd natur yn darparu amddiffyniad yn erbyn amrywiaeth o glefydau, gan gynnwys iselder, diabetes, gordewdra, ADHD a chanser.
- Mae manteision seicolegol planhigion (gan gynnwys planhigion swyddfa) yn gwneud i bobl deimlo'n fwy cyfforddus, dan lai o bwysau, 15% yn fwy cynhyrchiol a 40% yn fwy bodlon â'u gwaith.
- Mae myfyrwyr sy'n "gweld mwy o wyrddni yn perfformio'n well yn academaidd".
- Mae gweithwyr sy'n gallu gweld amgylchedd gwyrdd o'u desgiau yn colli 23% yn llai o amser i ffwrdd yn sâl.
- Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o oroesi pan mae mwy o fannau gwyrdd hygyrch o amgylch eu cartrefi.
- Mae cwsmeriaid yn barod i dalu mwy am barcio ac am nwyddau mewn ardaloedd siopa wedi'u tirlunio.
- Mae'r amser sy'n cael ei dreulio ym myd natur yn rhoi hwb i lefelau cyswllt cymdeithasol ac yn gwella cysylltiadau cymdeithasol, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.
- Mae ardaloedd a chanddynt amgylchedd naturiol o safon uchel yn gatalydd i ddatblygiad economaidd.
- Mae gan Gymru ddiwydiant twristiaeth gwerth sawl miliwn ac mae'n dibynnu ar fywyd gwyllt llewyrchus ac amgylchedd o ansawdd uchel.



# Sut i wneud gwahaniaeth

## Cyflawni Cymru Wydn

Buddsoddi yn Natur Cymru
*Invest in Nature Cymru*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Gall neilltuo lle i natur yn adeilad a phenderfyniadau eich sefydliad fod yn haws na'r disgwyl.**

**P'un ai a ydynt yn fawr neu fach, y tu mewn neu'r tu allan, mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau ardaloedd lle gellir cyflawni mân newidiadau i'w gwneud yn gydnaws â natur. Mae yna hefyd lawer o sefydliadau a chanddynt adnoddau rhad neu am ddim a fydd yn hapus i'ch helpu i gyflawni hyn.**

**Gallwch hefyd annog eich cydweithwyr a gwirfoddolwyr i brofi ac elwa o fyd natur mewn ffyrdd eraill:**

Rheolwch eich tir ac adeiladau ar gyfer bioamrywiaeth; cysylltwch ag Environet am gyngor ar sut i wneud i hwn.

Gwnewch ymdrech i adael eich desg amser cinio a chwiliwch am fan gwyrdd agos i gofio pam mae natur yn bwysig ac i fagu mwy o nerth ac ymlacio – mae 94% o bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n well yn gorfforol ac yn feddyliol ar ôl gwneud gweithgarwch corfforol mewn man gwyrdd.

Gwnewch leoliadau a chanddynt fannau gwyrdd eich dewis diofyn i gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau allanol – gall hyn roi hwb i greadigrwydd.

Cofiwch gynnwys cyfleoedd i fynd y tu allan a mwynhau byd natur yn ystod eich dyddiau i ffwrdd – mae chwarae ym myd natur yn cryfhau eich elfennau ymdopi â straen ac yn cyfrannu at greadigrwydd, cydweithrediad cymdeithasol a gallu i ganolbwyntio.

Ystyriwch weithgareddau creadigol ac ymarferol fel gwneud teclynnau bwydo adar neu ddysgu am wahanol goed neu anifeiliaid fel egwyliau hanner awr i ddod â chyfarfodydd tîm i ben.

Os oes gan eich sefydliad bolisi ar gyfer gweithwyr sy'n gwirfoddoli, gwnewch yn siŵr ei fod yn hybu cyfleoedd sy'n galluogi pobl i agosáu at fyd natur a'i wella.

Meddyliwch sut y gallwch gyflwyno natur yn eich gweithle, o fasged grog i dirlunio – a gwnewch hyn yn rhan o ddulliau rheoli cyfleusterau corfforaethol eich sefydliad.

Manteisiwch ar fywyd gwyllt arbennig Cymru; bydd yn eich ysbrydoli chi, eich cydweithwyr a'ch gwirfoddolwyr.

Gwnewch i'ch holl sefydliad groesawu natur drwy ystyried effaith natur ar eich penderfyniadau rheoli bob dydd – o gaffael i gynnyrch glanhau. Bydd cynnwys natur yn eich Polisi Amgylcheddol yn helpu i sicrhau hyn.



# Camau syml er mwyn cyflawni Cymru Wydn

Gall neilltuo lle i natur yn eich gweithle fod yn syml, yn gost-effeithiol ac yn werth chweil.

Gall hyd yn oed potiau blodau neu fasgedi crog helpu bywyd gwyllt os ydynt yn cael eu plannu'n iawn ac yn cael y gofal cywir, a gall rhywbeth mor fach â phowlen golchi llestri droi yn bwll trefol. Gall un goeden amddiffyn eich adeilad yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol drwy ddarparu cysgod, gwella system ddraenio a lleihau llygredd.

Bydd teclynnau bwydo adar yn denu adar; bydd gwestai i chwilod (neu hyd yn oed bentyrrau o gerrig neu ffyn fel cynefin) yn rhoi cartrefi i chwilod a'r pryfed maen nhw'n eu bwyta. Gall gwelyau wedi codi neu botiau mewn maes parcio roi bwyd i wenyn a glöynnod byw. Cofiwch am y tu mewn hefyd, gan fod astudiaethau wedi profi y gall planhigion wella ansawdd aer, lleihau straen a gwella gallu pobl i ganolbwyntio a bod yn greadigol – yn ogystal ag amsugno nwyon tŷ gwydr.

## Awgrymiadau i lwyddo

Rhannwch eich brwdfrydedd drwy ddod o hyd i bobl sy'n meddwl yn yr un ffordd â chi – mae eich cynlluniau'n fwy tebygol o lwyddo os ydych chi'n rhan o dîm i rannu syniadau a thasgau.

Byddwch yn glir pwy sy'n gyfrifol am beth h.y. pwy sy'n gyfrifol am ddyfrio'r planhigion.

Gofynnwch am gyfraniad – gall eich bwrdd neu'ch tîm rheoli gynnig cyngor ac arweinyddiaeth.

JUST DO IT ! Un cam ar y tro – hyd yn oed os oes gennych syniadau mawr, mae'n iawn cymryd un cam ar y tro.

## Drwy wneud hyn ....


byddwch yn cymryd camau dros natur i helpu i sicrhau'r buddion canlynol.

Bydd yn helpu i ddangos i gyllidwyr a rhanddeiliaid bod gennych agwedd gyfannol at gynaliadwyedd ac yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Bydd yn sicrhau arbedion ariannol o ran penodi mwy o staff, yn codi morâl gwirfoddolwyr ac yn arwain at golli llai o ddiwrnodau o salwch.

Byddwch yn dangos eich cyfrifoldeb byd-eang ac yn helpu i fynd i'r afael â materion fel colli pryfed peillio a dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Byddwch yn rhan o dîm iachach a hapusach ac amgylchedd mwy croesawgar a therapiwtig.



# Bywyd gwyllt Cymru
## Ble i ffeindio ysgogiad

Ymddiriedolaethau Natur Cymru / Wildlife Trusts Wales


Buddsoddi yn Natur Cymru / Invest in Nature Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

**Mae gan Gymru doreth o fywyd gwyllt gan gynnwys gweilch anhygoel, barcutiaid coch llwglyd, nythfa fwya'r byd o adar drycin Manaw a dyma'r lle gorau ym Mhrydain i weld palod a llamhidyddion.**

**Nid dim ond yn y gwanwyn a'r haf mae modd gweld yr hud a lledrith yma – mae bywyd gwyllt anhygoel i'w weld yn yr hydref a'r gaeaf fel morloi bychain, miloedd o adar yn dychwelyd i'n haberoedd, a lliwiau coetir hydrefol hyfryd o aur, efydd a choch.**

**Mae gan Gymru 216 o warchodfeydd natur yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Parc Cenedlaethol sy'n ymestyn dros 4000 cilomedr sgwâr, a 870 milltir o Lwybr Arfordir Cymru lle gall fywyd gwyllt fod yn wirioneddol wyllt.**




Canolfannau Ymwelwyr Ymddiriedolaeth Natur

## Dyma rai uchafbwyntiau:



1 **Barcutiaid coch** – Mae tua 2,000 o'r adar anhygoel hyn yn crwydro drwy awyr Cymru, gan wneud campau uwch ein pennau drwy gydol y flwyddyn.



2 **Gweilch** – Mae'r adar hardd hyn yn teithio o Affrica i Gymru i fagu yng Ngwarchodfa Natur Cors Dyfi yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ger Machynlleth, a Glaslyn ger Porthmadog.



3 **Coedwigoedd glaw** – Mae gennym rai o'r enghreifftiau gorau o goetiroedd derw Atlantig yn Ewrop, sydd yn dyddio'n ôl 10,000 o flynyddoedd ac yn gartref i filiynau o blanhigion, adar, ystlumod a dyfrgwn prin.





4 **Palod ac adar drycin Manaw** – Mae tua 357,000 o barau magu adar drycin Manaw ar ynysoedd Sgomer a Sgogwm yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.



5 **Dolffiniaid**
Mae Ceinewydd ym Mae Ceredigion yn un o'r llefydd gorau yn Ewrop i weld y mamaliaid morol anhygoel hyn.



6 **Dolydd blodau gwyllt** – Glaswelltiroedd llawn blodau Cymru yw'r rhai mwyaf sydd ar ôl yn y byd, a gallwch weld miloedd o degeirianau yn Fferm Pentwyn yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.



7 **Morloi llwyd** – Yr hydref yw'r amser gorau i weld morloi bach, yn enwedig yng ngwarchodfeydd bywyd gwyllt ynys Enlli, arfordir Ynys Môn, ac ynysoedd Sgomer a Sgogwm, sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.



8 **Gwenoliaid y môr** – Mae'r lagŵn yng Ngwarchodfa Natur Cemlyn yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn gartref i fôr-wenoliaid cyffredin a môr-wenoliaid y Gogledd, ac yn un o'r poblogaethau nythu môr-wenoliaid pigddu mwyaf y DU.



9 **Dyfrgwn** – Mae Cymru yn cynnig un o'r cyfleoedd gorau yn Ewrop i wylio dyfrgwn. Yr amser gorau i weld dyfrgwn yng Ngilfach rhwng mis Hydref a Rhagfyr pan fydd dyfrgwn yn ymweld â'r rhaeadrau i hela eogiaid chwim.



10 **Adar hirgoes** – mae poblogaethau rhyngwladol bwysig o adar hirgoes yn defnyddio ein haberoedd fel gorsafoedd bwydo dros y gaeaf, a'r mannau gorau i'w gweld yw aberoedd afonydd Hafren, Dyfrdwy a Dyfi.

# Rydych chi yn ran o ecosystem
## Cysylltu gyda natur

**Mae nifer o heriau'n wynebu Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, megis newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae niferoedd dros 60% o'r rhywogaethau rydym yn gwybod amdanynt yn gostwng ac mae llawer o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu yng Nghymru.**

**Mae amgylchedd naturiol, iach yn hollbwysig i lesiant cymdeithasol ac economaidd ac felly mae'n un o'r 7 nod sydd wedi'i gosod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i greu Cymru Wydn ac yn canolbwyntio ar yr amgylchedd naturiol.**


**Cymru Wydn** – Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiaeth gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch ecolegol, cymdeithasol, ac economaidd ac yn gallu addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).

## Beth mae'r termau yn meddwl

Ystyr **bioamrywiol neu bioamrywiaeth** yw 'amrywiaeth fiolegol' sy'n cyfeirio at bob amrywiaeth o fywyd y gellir ei weld ar y ddaear (planhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau) yn ogystal â'r cymunedau maen nhw'n eu ffurfio a'r cynefinoedd lle maen nhw'n byw.

Mae **ecosystemau** yn rwydwaith dynamig o gymunedau planhigion, anifeiliaid a micro-organebau a'u hamgylchedd heb fod yn fyw sy'n gweithredu fel uned ymarferol.

**Gwytnwch ecolegol**, a elwir hefyd yn gadernid ecolegol, yw gallu ecosystem i gynnal ei phatrymau arferol o ran cylchred maetholion a'r broses o gynhyrchu biomas ar ôl bod yn destun difrod a achoswyd gan aflonyddwch ecolegol.



Cofiwch eich fod yn rhan o ecosystem, darn o'r dirwedd naturiol, felly ceisiwch gwarchod beth sydd drws nesaf i chi. Os ydych yn byw yn agos i goedwig, plannwch goed. Os ydych yn byw yn agos i gerddi, plannwch flodau neu darparwch gartref i ddraenogod. Mae pob planhigyn a blodyn yn wirioneddol yn gwneud gwahaniaeth.

